

Busnes y Senedd Canllawiau ar gyfer Proses Biliau'r Aelodau

Argraffiad 4: Mai 2020



Senedd Cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Yr Uned Cymorth Craffu
Senedd
Bae Caerdydd
CF99 1SN

E-bost: deddfwriaeth@senedd.cymru

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun

camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Busnes y Senedd Canllawiau ar gyfer Proses Biliau'r Aelodau

Argraffiad 4: Mai 2020




Senedd Cymru

Cynnwys

01. Cyflwyniad	5
02. Llundio cynnig	6
02.1. Cyflwyno gwybodaeth cyn cynnal y balot	6
02.2. Y balot	7
02.3. Dadl i geisio cymeradwyaeth y Senedd i gyflwyno Bil	8
03. Paratoi Bil	10
03.1. Trosolwg	10
03.2. Tîm y Bil	10
03.3. Ymgynghoriad	10
03.3.1. Biliau Drafft	10
03.3.2. Ymgynghoreion	11
03.4. Drafftio'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol	11
03.5. Gofynion ychwanegol y Rheolau Sefydlog	12
03.6. Cyflwyno'r Bil yn ffurfiol a'r datganiad deddfwriaethol	12
04. Cymorth yn ystod y broses deddfu	14
4.1 Cyfnod 1	14
04.1.1. Pwyllgor yn trafod y Bil	14
04.1.2. Cymorth ar gyfer Cyfarfodydd Pwyllgor	15
04.1.3. Adroddiad y pwyllgor	15
04.1.4. Dadl Cyfnod 1	15
04.2. Penderfyniad Ariannol	16
04.3. Cyfnod 2	17
04.3.1. Llundio a chyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2	17
04.3.2. Y pwyllgor yn trafod y gwelliannau yng Nghyfnod 2	18
04.3.3. Diwygio'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2	18
04.4. Cyfnod 3	18
04.5. Cyfnod 4	19
Atodiad 1: Canllawiau fesul cam, i'r broses o lunio Biliau Aelodau	21
Atodiad 2: Templed ar gyfer cyflwyno gwybodaeth cyn y balot	23

Crynodeb o'r broses ar gyfer Biliau Aelodau

Tachwedd 2016



Mae Llywydd y Senedd yn dweud wrth Aelodau a'r cyhoedd yn ehangach ei bod yn bwriadu cynnal balot.

Mae Aelodau'n cyflwyno syniadau ar gyfer y balot. Rhaid i Aelodau nodi teitl arfaethedig ac amcanion polisi eu Bil fel 'gwybodaeth cyn y balot.' Ni all Bil arfaethedig ymwneud â threthiant.

Mae'r Llywydd yn cynnal balot i ddewis Bil arfaethedig o blith y rhai a gyflwynwyd.

Mae gan enillydd y balot 25 diwrnod gwaith o ddyddiad y balot i drefnu pleidlais (gelwir hwn yn gyflwyno cynnig) yn gofyn am ganiatâd i gyflwyno Bil.

Mae gan Bwyllgor Busnes y Senedd 35 diwrnod gwaith o ddyddiad y balot (heb gynnwys cyfnodau toriad) i drefnu dadl ar gynnig o'r fath.

Mae Aelodau yn dadlau a phleidleisio ar y cynnig sy'n gofyn caniatâd i gyflwyno Bil. Gelwir hyn yn ddadl 'Caniatâd i Gyflwyno'.

Os yw'r Aelodau'n cefnogi ei gynnig, bydd gan enillydd y balot 13 mis o'r ddadl 'Caniatâd i Gyflwyno' i ddatblygu a chyflwyno ei Fil yn ffurfiol i'r Senedd.¹

Yn dilyn cyflwyno'r cynnig, bydd y Senedd yn craffu arno ac yn cyflwyno gwelliannau iddo yn yr un modd ag unrhyw Fil cyhoeddus arall.



01. Cyflwyniad

01. Gweinidogion Llywodraeth Cymru sy'n cyflwyno'r rhan fwyaf o'r Biliau Cyhoeddus yn y Senedd. Fodd bynnag, mae modd i Aelodau o'r Senedd, Comisiwn y Senedd neu Bwyllgor o'r Senedd gyflwyno Biliau Cyhoeddus hefyd.
02. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r prosesau sy'n gysylltiedig â pharatoi Bil Aelod, a'i daith drwy'r Senedd.
03. Yn **Atodiad 1**, mae canllaw, fesul cam, i'r broses sy'n gysylltiedig â Biliau Aelodau.

02.Llunio cynnig

04. Mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan bod yn rhaid i'r Llywydd, obrydi'w gilydd, "gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod".
05. Caiff unrhyw Aelod o'r Senedd nad yw'n aelod o Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig am Fil i'r balot. Fodd bynnag, ni chaiff Aelod sydd wedi ennill y balot o'r blaen yn y Senedd hwnnw wneud caiso'r fath.
06. Ni all y Bil arfaethedig fod ar drethiant.
07. Gall deddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol ar fywydau miliynau ledled Cymru, ac felly mae'n anorffod bod y broses o baratoi deddf arfaethedig a'i llywio drwy sesiynau craffu'r Senedd yn broses gadarn a thrwyadl. Wrth benderfynu cyflwyno cynnig ai peidio efallai y bydd yr Aelodau am gadw mewn cof yr amser sydd ei angen i lunio Bil (hyd at 13 mis), a'i lywio drwy'r cyfnodau deddfwriaethol (sy'n amrywio, ond sy'n gallu cymryd rhwng 6 a 12 mis arall).

02.1. Cyflwyno gwybodaeth cyn cynnal y balot

08. Mae'r Rheolau Sefydlog yn eigrwneud yn ofynnol bod Aelodau sydd am gael eu cynnwys yn y balot yn gosod y wybodaeth a ganlyn yn y Swyddfa Gyflwyno:
 - a. teitl arfaethedig y Bil; a
 - b. amcanion polisi y Bil
09. Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn eigrwneud yn ofynnol i Aelod ymgyngori arei Fil arfaethedig cyn cyflwyno cynnig ar gyfer y balot. Fodd bynnag, argymhellir bod yr Aelodau yn ymgyngori â'r rhanddeiliaid perthnasol lle bo hynny'n bosibl, oherwydd byddant yn gallu cyfeirio at wybodaeth a gafwyd drwy ymgyngori yn y cyfryw fodd yn y ddadl 'caniatâd i gyflwyno', pe byddai'r cynnig yn llwyddiannus yn y balot.
10. Wrth lunio amcanion polisi'r Bil, efallai y bydd yr Aelodau am gael cydbwysedd rhwng rhoi eglurder i'r Senedd ynghylch diben y deddfwriaeth arfaethedig, a hyblygrwydd o ran sut y bydd y Bil y cyflawni'r diben hwnnw, er mwyn mynd i'r afael â materion a all godi wrth ymgyngori ar y cynnig.
11. Hefyd, efallai y bydd yr Aelod am ystyried pa mor eang y bydd cwmpas ei Fil, gan gofio y gallai hynny effeithio ar natur broses graffu'r pwyllgorau a derbynioddeb unrhyw welliannau yn nes ymlaen.
12. Yn **Atodiad 2**, ceir templed sy'n cynnwys y math o wybodaeth sydd ei angen cyn y balot.
13. Mae enghreifftiau o'r **wybodaeth a gyflwynwyd gan Aelodau cyn y balot ynystody pedwerydd Cynulliad** ar gael yn ar ein wefan ni.
14. Dim ond pan fydd Aelod wedi llwyddo yn y balot ac wedi cael caniatâd i gyflwyno Bil y bydd tîm penodol o swyddogion Comisiwn y Senedd ar gael i Aelod (gweler adran 3 isod). Fodd bynnag, gellir gofyn i Wasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth neu Wasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau am gyngor ar unrhyw adeg (efallai y bydd Aelodau am gysylltu â Chlerc yr Uned Cymorth Craffu). Yn yr un modd, gall y Gwasanaethau Cyfreithiol roi cyngor i'r Aelodau o ran a yw eu cynnigo fewn cymhwysedd, a gall helpu i ailffurfio cynnigi'w dddwyn o fewn cymhwysedd

(efallai y bydd yr Aelodau'n awyddus i ofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol am gyngor). Hefyd, gellir gwneud cais am waith ymchwil i'r Gwasanaeth Ymchwil (efallai y bydd yr Aelodau am gysylltu â'r Arweinydd Ymchwil Cyllid ac Ystadegau, sy'n cydgysylltu ceisiadau o'r fath).

15. Bydd y Llywydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau pryd y mae'n bwriadu cynnal balot, er mwyn rhoi amser iddynt baratoi'r wybodaeth a'r dogfennau sydd eu hangen arnynt cyn y cynhelir y balot.
16. Rhaid i Aelodau gyflwyno eu gwybodaeth cyn y balot i Swyddfa Gyflwyno'r Senedd erbyn 16.00 ar y dydd Gwener olaf cyn dyddiad y balot. Fodd bynnag, mae croeso i Aelodau gyflwyno'r wybodaeth hon unrhyw bryd cyn y terfyn amser hwn.
17. Bydd yr holl wybodaeth a gyflwynir cyn y balot yn cael ei chyhoeddi gan y Swyddfa Gyflwyno. Dim ond un cynnig gaiff yr Aelodau ei gyflwyno ar gyfer unrhyw falot, ond caniateir iddynt ddiwygio neu amnewid y cynnig hwnnwar unrhyw adeg rhwng gwahanol falotau. Caiff cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr gyhoeddedig eu cynnwys ym mhob balot, oni bai bod yr Aelodau'n dweud yn wahanol wrth y Swyddfa Gyflwyno.

02.2. Y balot

18. Rhaid i'r balot gynnwys enw pob Aelod sydd wedi gwneud cais i gael ei gynnwys ac sydd wedi gosod y wybodaeth sydd ei hangen cyn y balot (gweler adran 2.1 uchod) yn Swyddfa Gyflwyno'r Senedd.
19. Bydd y balot yn cael ei gynnal gan y Swyddfa Gyflwyno, a bydd yn hysbysu'r Aelod llwyddiannus am y canlyniad. Caiff canlyniad y balot ei gyhoeddi ar wefan y Senedd a chaffe ei gyhoeddi gan y Llywydd yn ystod y Cyfarfod Llawn.

02.3. Dadl i geisio cymeradwyaeth y Senedd i gyflwyno Bil

20. Gall Aelod sy'n llwyddomewn balot gyflwyno cynnig (o fewn 25 diwrnod gwaith¹ i ddyddiad y balot) sy'n gofyn am ganiatâd y Senedd i gyflwyno Bil Aelod a fydd yn rhoi grym i'r wybodaeth a gyflwynwyd cyn y balot. Ynghyd â'r cynnig, mae'n rhaid i'r Aelod gynneg Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi:
- teitl arfaethedig y Bil;
 - amcanion polisi y Bil arfaethedig;
 - manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed; ac
 - asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil.
21. Dylai teitl arfaethedig ac amcanion polisi'r Memorandwm Esboniadol fod yn gyson â'r wybodaeth a gyflwynwyd cyn y balot gan yr Aelod, er y gall Aelod eu haddasu a/neu gynnwys rhagor o wybodaeth maes o law.
22. Er eglurder, nid yw'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod fod wedi derbyn cefnogaeth ar gyfer ei Fil (nac iddo fod wedi cynnal ymgynghoriad) ar yr adeg hwn, ond iddo nodi yn y Memorandwm Esboniadol a ydyw wedi derbyn cefnogaeth arbennig.
23. Ni ddisgwylir i'r asesiad cychwynnol o gostau a/neu arbedion yn y Memorandwm Esboniadol fod yn fanwl iawn a rycamcynnarn hwn. Yn hytrach, byddai'n rhoi arwyddoystyriaeth a cynnarn yr Aelod. Yn ymarferol, byddai'n amhosibl i Aelod nodi costau cywir ar gyfer Bil nad oedd eto wedi'i ddatblygu. Diben darparu asesiad cychwynnol o gostau a/neu arbedion yw rhoi syniad cyffredinol o effaith ariannol debygol y Bil. Nid oes angen unrhyw amcangyfrif manwl o'r costau nac asesiadau manwl o'r effaith, ac ni ddylai'r Aelodau gael eu rhwymogannu costau cyffredinol a ddarperir ar yr adeg hon wrth ddatblygu eu cynigion ar gyfer y Bil.

¹ Ystyr 25 diwrnod gwaith yw unrhyw ddiwrnod heblaw am y diwrnodau a ganlyn:

(i) dydd Sadwrn neu ddydd Sul;

(ii) noswyl Nadolig, dydd Nadolig, dydd Iau Cablyd neu ddydd Gwener y Groglith;

(iii) diwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971; neu

(iv) diwrnod a bennwyd yn ddiwrnod diolchgarwch neu'n ddiwrnod o alar cyhoeddus.

24. Mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan bod yn rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig o'r fath o fewn 35 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot (heb gyfrif y diwrnodau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Senedd yn eistedd).² Y Pwyllgor Busnes fydd yn trefnu amser ar gyfer y ddadl.
25. Mae'r ddadl yn gyfle i'r Aelod wneud achos dros y Bil mewn egwyddor ac i ddarbwyllio Aelodau eraill i gefnogi'r cynnig. Nid yw'n ddadl ar gynnwys manwl unrhyw Fil a gaiff ei gyflwyno maes o law. Nid oes angen unrhyw ddogfennau ychwanegol gan yr Aelod cyn y ddadl.
26. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, caniateir i'r Aelod gyflwyno Bil yn ffurfiol gan ddod â'r amcanion polisi sydd wedi'u gosod yn y Memorandwm Esboniadol i rym. O dan y Rheolau Sefydlog, rhaid i'r Aelod gyflwyno'r Bil o fewn 13 mis³, neu bydd y cyfle i wneud hynny'n cael ei golli.
27. Os nad yw'r Senedd yn cytuno i ganiatáu i'r Aelod gyflwyno Bil, mae'r Bil yn methu. Mae'r Rheolau Sefydlog yn gwahardd Aelod rhag ailgyflwyno cynnig tebyg am gyfnod ochwem is ar ôl i'r cynnig gael ei wrthod.

² Ystyr 35 diwrnod gwaith yw unrhyw ddiwrnod heblaw am y diwrnodau a ganlyn:

- (i) dydd Sadwrn neu ddydd Sul;
- (ii) noswyl Nadolig, dydd Nadolig, dydd Iau Cablyd neu ddydd Gwener y Groglith;
- (iii) diwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971;
- (iv) diwrnod a bennwyd yn ddiwrnod diolchgarwch neu'n ddiwrnod o alar cyhoeddus; neu
- (v) rhan o wythnos pan na fydd y Senedd yn eistedd.

³ Mae'n hynny'n golygu 13 mis calendr, ni waeth a oes wythnosau pan nad yw'r Senedd yn eistedd neu wyliau banc yn ystod y cyfnod hwnnw.

03. Paratoi Bil

03.1. Trosolwg

28. Er bod y Rheolau Sefydlog yn datgan bod yn rhaid i Aelod gyflwyno Bil cyn pen 13 mis, yn ymarferol, rhaid i destun terfynol y Bil a'r Memorandwm Esboniadol atodol, gael ei baratoi cyn pen 12 mis. Y rheswm am hyn yw bod y Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd agef yn cael eu hanfon at y Llywydd o leiaf bedair wythnos cyn iddynt gael eu cyflwyno, ermwyn rhoi cyfle i'r Llywydd lunio barn am gymhwysedd deddfwriaethol y Bil.
29. Gall toriadau'r Senedd hefyd effeithio ar yr amser sydd ar gael i Aelod baratoi Bil. Hefyd, rhaid i'r amser sydd ar gael i baratoi'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol ganiatáu iddynt gael eu paratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

03.2. Tîm y Bil

30. Os caiff Aelod gytundeb y Senedd i gyflwyno Bil, bydd ganddo opsiwn i gael cymorth tîm penodol oswyddogion Comisiwn y Senedd ('tîm y Bil') i baratoi'r Bil. Gall tîm y Bil gynnwys:
- y Clerc sy'n gyfrifol am Gymorth Craffu;
 - aelodau o'r Gwasanaeth Ymchwil, sy'n arbenigo ym maes polisi'r Bil arfaethedig, a chraffu ariannol;
 - aelod(au) o'r Gwasanaethau Cyfreithiol.
31. Cyfeirir at rôl bosibl tîm y Bil yn yr is-adrannau isod. Fodd bynnag, awgrymir y dylai Aelod a'i Staff Cymorth drafod, cytuno ac adolygu eu dulliau gweithredu a'r moddy caiff y cyfrifoldebau eu rhannu o fewn tîm y Bil. Mae hyn yn adlewyrchu bod cryn dipyn o ymgynghori, ymchwil a datblygu perthynas â rhanddeiliaid eisoes wedi digwydderbyn yr adeg bydd Aelod yn cael cytundeb y Senedd i gyflwyno Bil.

03.3. Ymgynghoriad

32. Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn datgan ei bod yn ofyniad penodol i Aelod ymgynghori ar ei Fil arfaethedig cyn ei gyflwyno'n ffurfiol.
33. Fodd bynnag, mae ymgynghori - ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a thestun drafft y Bil - yn cael ei argymhell yn gryf.
34. Mae gwybodaeth a geir drwy ymgynghori yn galluogi Aelod i:
- benderfynu ar y cynnwys mwyaf priodol ar gyfer ei Fil; a
 - nodi a pharatoi ar gyfer materion pwysig neu ddadleuol sy'n debygol o godi pan fydd y Senedd yn trafod y Bil.
35. Gall tîm y Bil weithio gydag Aelod a'u staff cymorth i ddarparu cyngor ar dechnegau hyrwyddo a chasglu tystiolaeth.

03.3.1. Biliau Drafft

36. Yn 2015, yn ei adroddiad Deddfu yng Nghymru, argymhellodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y pedwerydd Cynulliad yn benodol:

"y dylid cael rhagdybiaeth o blaid cyhoeddi Biliau drafft. Mae'r argymhelliad hwn yn gymwys i Lywodraeth Cymru ac i Aelodau Cynulliad sydd wedi cael caniatâd i gyflwyno Biliau."

37. Yny Pedwerydd Cynulliad, cynhaliwyd ymgynghoriadau ar Filiau drafft mewn perthynas â Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) a Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru). Roedd hyn yn gyfle i'r Aelodau perthnasol a oedd yn gyfrifol am y Biliau i wneud newidiadau iddynt cyn iddynt gael eu cyflwyno (ond gan gyflwyno Biliau a oedd yn rhoi effaith i'r wybodaeth a gyflwynwyd cyn y balot).
38. Pan fydd Bil wedi'i gyflwyno, dim ond drwy gyflwyno gwelliannau y gellir newid ei destun (ac mae'n rhaid cael mwyafrif o'r Aelodau i gytuno arnynt). Felly, mae ymgynghori ar Fil drafft yn gyfle i'r Aelodau fynd i'r afael â materion penodol yn haws. Hefyd, gellir gosod Bil drafft gerbron y Senedd, er mwyn i bwyllgor gynnal gwaith craffu cyn y broses ddeddfu.
39. Gall tîm y Bil roi cyngor penodol ynghylch amserlen i gwrdd ag unrhyw ofynion ymgynghori sydd gan yr Aelod.

03.3.2. Ymgynghoreion

40. Nid oes unrhyw ymgynghoreion 'gorfodol' i Aelod ymgynghori â hwy.
41. Yn gyffredinol, bydd Aelod yn awyddus i wahodd sefydliadau ac unigolion sydd â buddiant, neu fuddiant a ragwelir, ym mhwncei Fil arfaethedig i ymateb i'w ymgynghoriad. Gall tîm y Bil weithio gyda'r Aelod a'i Staff Cymorth i roi cyngor ynghylch ymgynghoreion posibl.
42. Efallai y bydd Aelod am ymgynghori'n benodol â'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrth ddatblygu'r Bil, oherwydd:
 - efallai y bydd Aelod yn awyddus i weld a oes gan naill ai Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU unrhyw bryderon ynghylch cymhwysedd y Bil;
 - bydd Llywodraeth Cymru yn trafod â Llywodraeth y DU ynglŷn ag effaith bosibl y Bil o ran cyfrifoldebau ar lefel y DU;
 - dim ond aelod o Lywodraeth Cymru a all gynnig penderfyniad ariannol (gweler adran 4.2 isod);
 - efallai y bydd y Bil yn cynnwys adrannau fydd yn cael eu cychwyn drwy orchymyn.

03.4. Drafftio'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol

43. Argymhellir bod Aelod a'i Staff Cymorth yn cwrdd â thîm y Bil yn gynnar yn y broses i drafod sut y maent am lunio'u Bil. Gallai'r Aelod ymgynghori ar yr opsiynau gwahanol ar gyfer ffurf y Bil.
44. Er mwyn sicrhau bod y Bil yn adlewyrchu amcanion yr Aelod yn gywir, bydd angen i'r Aelod roi amcanion penodol i'r cyfreithiwr neu'r cyfreithwyr yn nhîm y Bil. Wedyn, bydd y cyfreithiwr neu'r cyfreithwyr yn gyfrifol am ddrafftio'r Bil, yn unol â chyfarwyddyd yr Aelod. Er eglurder: yr Aelod sy'n gyfrifol am gynnwys y Bil bob amser, a bydd gofyn iddo ei lofnodi'n ffurfiol ar ddiwedd pob un o'r cerrig milltir allweddol yn y broses.
45. Bydd tîm y Bil yn gweithio â'r Aelod a'r Staff Cymorth i lunio'r cyfarwyddiadau hyn. Gall y cyfarwyddiadau gwmpasu'r canlynol:
 - amcan y ddeddfwriaeth arfaethedig;

- rhesymeg y ddeddfwriaeth arfaethedig;
- amryfal amcanion y ddeddfwriaeth;
- yr amrywiaeth o bobl a gweithgareddau y mae angen iddynt fod â rhan yn y Bil ac y bydd y Bil yn effeithio arnynt;
- y cymorth a glustnodwyd ar gyfer y ddeddfwriaeth;
- y cefndir polisi sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth;
- y ddeddfwriaeth bresennol sy'n gysylltiedig â'r maes polisi; ac
- ystyriaethau a materion eraill.

46. Yn ogystal â chael ei lywio gan y gyfres o gyfarwyddiadau cyfreithiol y cytunwyd arnynt, rhaid i'r Bil gael ei ysgrifennu i gydymffurfio â **Phenderfyniad y Llywydd o ran y Ffurf Briodol - Biliau Cyhoeddus ar gyfer Deddfau'r Senedd**. Bydd tîm y Bil fel arfer yn drafftio'r Bil fel ei fod yn cydymffurfio â'r Penderfyniad.

47. Rhaid cyflwyno Memorandwm Esboniadol gyda'r Bil, a rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gydymffurfio â darpariaethau Rheolau Sefydlog 26.6, 26.6A, 26.6B, 26.6C.

48. Cyfrifoldeb yr Aelod yw llunio'r Memorandwm Esboniadol, a chaiff gymorth gan dîm y Bil a'i Staff Cymorth. Er eglurder, gofynnir i'r Aelod gadarnhau, cyn i'r Memorandwm Esboniadol gael ei osod, a yw'n fodlon â'r modd y'i drafftio.

03.5. Gofynion ychwanegol y Rheolau Sefydlog.

49. Ar ôl drafftio fersiynau terfynol o'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol, bydd angen bodloni meini prawf ychwanegol sydd wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog cyn y gellir cyflwyno'r Bil yn ffurfiol. Yn benodol, er mwyn cyflwyno Bil a Memorandwm Esboniadol, rhaid:

- ei gyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- ei gyflwyno ynghyd â datganiad gan y Llywydd yn dweud a oes gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i basio'r Bil, yn ei barn hi.

50. Cyn i'r Bil gael ei gyflwyno'n ffurfiol yn y Senedd, bydd yn destuncyfnod cyn cyflwyno sy'n bedair wythnos o hyd. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cydfynd ag ef yn cael eu hanfon at y Llywydd er mwyn rhoi cyfle iddi lunio barn am eu cymhwysedd deddfwriaethol cyn iddynt gael eu cyflwyno.

51. Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch a yw'r Bil a'i ddogfennau atodol yn y ffurf gywir ac a ydynt yn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog yn cael eu gwneud gan y Llywydd pan gyflwynir y Bil.

03.6. Cyflwyno'r Bil yn ffurfiol a'r datganiad deddfwriaethol

52. Cyflwynir Bil yn ffurfiol yn y Senedd drwy ei osod, ynghyd â'r dogfennau atodol, yn Swyddfa Gyflwyno'r Senedd. Yna, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn gwneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Bil erbyn y diwrnod gwaith canlynol ar y dudalen Dogfennau a Osodwyd ar wefan y Senedd. Hefyd, bydd y Bil yn cael ei gyhoeddi ar y dudalen **Hynt Biliau'r Senedd** ar y wefan.

53. Drwy gonfensiwn, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil wneud datganiad deddfwriaethol yn ystod y Cyfarfod Llawn ar brif amcanion y Bil, yn fuan ar ôl ei gyflwyno. Gall tîm y Bil gydweithio â'r Aelod a'i Staff Cymorth i lunio datganiad o'r fath.
54. Ar ôl y datganiad, caiff Aelodau eraill o'r Senedd gyfle i holi'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil neu godi materion sydd o bwys iddynt mewn perthynas â'i gynnwys a'i nodau a'i amcanion. Gall tîm y Bil gydweithio â'r Aelod a'i Staff Cymorth i baratoi atebion posibl i gwestiynau o'r fath.

04. Cymorth yn ystod y broses deddfu

55. Pan fydd Bil Aelod wedi'i gyflwyno, mae'n ddarostyngedig i'r un broses ddeddfu pedwar cyfnod yn y Senedd â Bil y Llywodraeth. Mae'r adran a ganlyn yn egluro'r cyfnodau deddfu gwahanol y mae Bil yn ddarostyngedig iddynt yn ystod ei daith drwy'r Senedd a'r cymorth y gall tîm y Bil ei ddarparu yn ystod y cyfnodau hyn.

4.1 Cyfnod 1

56. Mae Cyfnod 1 o broses ddeddfu'r Senedd yn caniatáu i bwyllgor (neu bwyllgorau) ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, ac yna'n caniatáu i'r Senedd gytuno arnynt yn ystod y Cyfarfod Llawn.

04.1.1. Pwyllgor yn trafod y Bil

57. Ar ôl i Fil gael ei gyflwyno, rhaid i'r Pwyllgor Busnes benderfynu a ddylid ei gyfeirio at bwyllgor arall er mwyn iddo ystyried ei egwyddorion cyffredinol.

58. Os bydd yn penderfynu cyfeirio Bil at bwyllgor, rhaid i'r Pwyllgor Busnes hefyd lunio a chyhoeddi amserlen y bydd gofyn i'r pwyllgor lynu ati wrth gyflwyno adroddiad. Caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno amserlen ddrafft i'r Pwyllgor Busnes i'w helpu i drafod y Bil (gall tîm y Bil helpu i lunio'r amserlen).

59. Mewn amgylchiadau penodol, mae'n bosibl na fydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu cyfeirio Bil at bwyllgor yng Nghyfnod 1. Mewn amgylchiadau o'r fath, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gyflwyno cynnig sy'n argymhell bod y Senedd yn cytuno'n syth ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn, a hynny heb ofyn i bwyllgor ystyried y Bil ymlaen llaw.

60. Yn ystod Cyfnod 1, bydd y pwyllgor fel rheol yn canolbwyntio ar archwilio prif ddiben neu ddibenion y Bil. Yn gyffredinol, bydd y pwyllgor yn ystyried:

- a. nodau / amcanion polisi'r Bil;
- b. ai proses ddeddfwriaethol yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r nodau / amcanion hynny; ac
- c. a yw'r Bil, ar ei ffurf ddrafft, yn gallu cyflawni'r nodau / amcanion a ddatganwyd.

61. Wrth gyflawni ei waith, disgwylir i'r pwyllgor wahodd pobl sydd â diddordeb i wneud sylwadau a allai lywio'r gwaith hwn, fel arfer drwy eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar. Gallai'r gwahoddiad hwn fod ar ffurf galwad am dystiolaeth ysgrifenedig neu lafar gan amryw randdeiliaid perthnasol. Byddai'r dystiolaeth lafar yn cael ei chyflwyno mewn cyfarfod pwyllgor cyhoeddus. Mae'r broses hon fel arfer yn cynnwys cymryd tystiolaeth gan y Gweinidog Cymru perthnasol.

62. Mae'n bosibl y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil hefyd yn aelod o'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n arferol i'r Aelod sy'n gyfrifol beidio â gwasanaethu ar bwyllgor lle trafodir eitemau sy'n ymwneud â'i Fil. Fel arfer, bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn gofyn i Aelod arall ddirprwyo ar ei ran yn rheolaidd, ar eitemau lle mae'r pwyllgor yn trafod y Bil.

63. Bydd y pwyllgor hefyd yn disgwyl cael tystiolaeth lafar ynghylch y Bil gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano, a hynny mewn cyfres o gyfarfodydd. Daeth yn arfer i'r Aelod sy'n gyfrifol fynd i'r cyfarfod

pwylgor cyntaf a'r cyfarfod olaf lle ceir tystiolaeth ynghylch y Bil. Yn ystod y sesiwn gyntaf, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol ei holi am nodau ac amcanion y Bil ac am y rhesymau dros ei gyflwyno. Yn ystod y sesiwn olaf, mae'n bosibl y gofynnir i'r Aelod sy'n gyfrifol i fynd i'r afael â'r materion a'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid yn ystod sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor. Yn y ddau gyfarfod, caiff yr Aelodau ofyn cwestiynau ynghylch unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Bil.

64. Mae'n bosibl hefyd y caiff y Bil ei drafod mewn pwyllgorau sy'n gyfrifol am swyddogaethau Rheolau Sefydlog 19a21 (a alwyd yn y pedwerydd Cynulliad yn Bwyllgor Cyllid ac yn Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol). Caiff y pwyllgorau hyn drafod goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth ac ansawdd a phriodoldeb y darpariaethau sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru. Cânt hefyd lunio adroddiad ar y materion hyn.

04.1.2. *Cymorth ar gyfer Cyfarfodydd Pwyllgor*

65. Gall tîm y Bil weithio gyda'r Aelod sy'n gyfrifol a'i Staff Cymorth i baratoi papur briffio i'w helpu i ateb cwestiynau Aelodau'r Pwyllgor. Gellir addasu'r ffurf y briff yn ôl dewis yr Aelod. Hefyd, gall tîm y Bil helpu'r Aelod i baratoi ar gyfer y Pwyllgor (er enghraifft drwy gynnal pwyllgor 'ffug' er mwyn ymarfer).
66. Bydd pwyllgor yn caniatáu i'r Aelod sy'n gyfrifol ddod â nifer o gynghorwyr gyda nhw i'r cyfarfod i'w helpu i ateb cwestiynau. Caiff Aelod sy'n gyfrifol wahodd aelodau eraill o dîm y Bil i ddod i'r cyfarfod at y diben hwn. Mewn achosion o'r fath, dim ond ateb cwestiynau ffeithiol a ofynnir gan y pwyllgor y caiff aelodau o dîm y Bil ei wneud.
67. Efallai y bydd angen i'r Aelod sy'n gyfrifol roi rhagor o wybodaeth i'r pwyllgor ar unrhyw adeg wrth iddynt gymryd tystiolaeth. Gall tîm y Bil gydweithio â'r Aelod sy'n gyfrifol a'i Staff Cymorth i baratoi papurau ysgrifenedig a gohebiaeth.

04.1.3. *Adroddiad y pwyllgor*

68. Ar ddiwedd trafodaethau Cyfnod 1, bydd y pwyllgor (au) yn cyhoeddi adroddiad (au). Caiff y pwyllgor sy'n gyfrifol amystyried egwyddorion cyffredinol y Bil gynnwys argymhelliad ynei adroddiad bod y Senedd yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil neu argymhelliad ei fod yn anghytuno â hwy.
69. Caiff yr adroddiad hefyd gynnwys argymhellion ynghylch pa welliannau y dylid eu gwneud i'r Bil, ar sail y dystiolaeth a gafwyd gan y pwyllgor.

04.1.4. *Dadl Cyfnod 1*

70. O leiaf pum niwrnod ar ôl cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 y pwyllgor cyfrifol (neu'r dyddiad a bennir gan y Pwyllgor Busnes), caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig yn ffurfiol bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Bydd dadl ar y Bil fel arfer wedi'i chynnwys yn amserlen y Pwyllgor Busnes ar gyfer trafod y Bil. Rhaid i'r Aelod sicrhau bod cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn cael ei gyflwyno yn y Swyddfa Gyflwyno ddim hwyrach na phum niwrnod gwaith cyn y ddadl Cyfnod 1. Ar ôl y ddadl honno, bydd y Senedd yn penderfynu a ddylid cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.
71. Os yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn dewis peidio â chyflwyno cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ni fydd y ddadl Cyfnod 1 yn cael ei chynnal ar y dyddiad a drefnwyd. Mewn amgylchiadau o'r

fath, byddai'r Aelod sy'n gyfrifol fel arfer yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes, i ofyn am amser ychwanegol neu fel arall bod y ddatl yn cael ei gohirio.

72. Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil fydd yn agor a chau'r ddatl Cyfnod 1. Caiff aelodau o'r pwyllgorau a fu'n craffu ar y Bil siarad hefyd, ynghyd ag Aelodau eraill sydd â diddordeb. Yn ogystal, bydd y Gweinidog(ion) sydd â chyfrifoldeb am y meysydd o fewn cwmpas y Bil yn cyfrannu ar ran Llywodraeth Cymru.
73. Gall tîm y Bil weithio gyda'r Aelod sy'n gyfrifol a'i Staff Cymorth i greu araith ar gyfer y ddatl ac awgrymu atebion posibl i bwyntiau sy'n codi yn ystod y ddatl.
74. Caiff Cyfnod 1 ei gwblhau drwy fod y Senedd yn pleidleisio a yw ai peidio yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Caiff yr Aelod sy'n gyfrifol dynnu'r cynnig sy'n gofyn i'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn ôl ar unrhyw adeg cyn y bleidlais ei hun (gan gynnwys yn ystod y ddatl flaenorol).
75. Os bydd y Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol, bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2.
76. Os bydd y mwyafrif o'r Aelodau yn pleidleisio yn erbyn egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd y Bil yn methu ac ni ellir cymryd camau pellach yn ei gylch.
77. Yn achos pleidlais gyfartal, bydd y Llywydd yn defnyddio ei phleidlais fwrw i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Ceir rhagor o wybodaeth am drafodion Cyfnod 1 yn y canllawiau i'r broses ddeddfwriaethol.

04.2. Penderfyniad Ariannol

78. Bydd Cyfnod 2 yn dechrau ar y diwrnod ar ôl cwblhau Cyfnod 1. Pan fydd Cyfnod 2 wedi dechrau, caiff yr Aelodau gyflwyno gwelliannau (gweler adran 4.3 isod).
79. Fodd bynnag, rhaid i bob Bil sydd â goblygiadau ariannol gael cydsyniad y Senedd, drwy gyfrwng penderfyniad ariannol, cynygall *trafodion* Cyfnod 2 (cyfarfodydd i ystyried a gwaredu gwelliannau a osodwyd) ddechrau.
80. O dan y Rheolau Sefydlog, mae angen penderfyniad ariannol os bydd Bil:
 - a. yn codi tâl newydd ar Gronfa Gyfunol Cymru neu'n arwain at gynnydd arwyddocaol yn yr arian a ddefnyddir o'r Gronfa honno;
 - b. yn arwain at wariant arwyddocaol sy'n daladwy o'r Gronfa honno ar wasanaeth neu at ddiben newydd neu'n arwain at gynnydd arwyddocaol yn y gwariant sy'n daladwy o'r Gronfa honno ar wasanaeth neu at ddiben presennol; neu'n
 - c. codi tâl a fyddai'n mynd i Gronfa Gyfunol Cymru, neu'n cynyddu tâl o'r fath, neu'n ei gwneud yn ofynnol bod taliad yn cael ei wneud i'r Gronfa (gan gynnwys darpariaethau y gellir eu gwneud drwy is-ddeddfwriaeth).
81. Mae penderfyniad ariannol y cytunwyd arno yn cynnwys cydnabyddiaeth bod yn rhaid i'r arian y bydd galw amdano yn y Bil ddod o'r Gronfa.
82. Dim ond aelod o Lywodraeth Cymru gaiff gyflwyno cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol. Mae hyn oherwydd bod rhaid:

- i'r Senedd roi caniatâd, drwy gynnal pleidlais, i godi refereniw neu i ddefnyddio adnoddau; ac
 - i Lywodraeth Cymru dderbyn goblygiadau ariannol y Bil, am mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli arian cyhoeddus ac felly rhaid iddi fod â rheolaeth dros godi refereniw a defnyddio adnoddau (yn y meysydd datganoledig).
83. Felly, mae'r penderfyniad ariannol yn gam hollbwysig ar gyfer Bil Aelod. Mae'r Rheolau Sefydlog yn datganybydd Bil yn methu os na chaiff y Penderfyniad Ariannol eigtunocyn penchwemisar ôl cwblhau Cyfnod 1.
84. Felly, argymhellir yn gryf bod unrhyw Aelod sy'n gyfrifol am Fil yn cysylltu â Llywodraeth Cymru ymhell cyn y ddadl Cyfnod 1 er mwyn gofyn am i gynnig ynghylch y penderfyniad ariannol gael ei gyflwyno o fewn amserlen resymol.

04.3. Cyfnod 2

85. Wrth gyfeirio Bil at bwyllgor ar gyfer trafodion Cyfnod 1, bydd y Pwyllgor Busnes fel arfer yn sefydlu ac yn cyhoeddi amserlen ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2 yr un pryd.
86. Mae canllawiau manwl ar drafodion Cyfnod 2, gan gynnwys gwybodaeth am yr amserlen, ac am gyflwyno, grwpio a chynnig gwelliannau, ar gael yn y **canllawiau i'r broses ddeddfu**.

04.3.1. Llunio a chyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2

87. Nid oes yn rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno unrhyw welliannau i'w hystyried yng Nghyfnod 2. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr Aelod yn awyddus i gyflwyno gwelliannau er mwyn cymryd i ystyriaeth:
- ymrwymïadau a wnaed gan yr Aelod yn ystod trafodion Cyfnod 1;
 - sylwadau a wnaed gan randdeiliaid yn ystod trafodion Cyfnod 1; neu
 - argymhellion a wnaed gan bwyllgorau yn eu hadroddiadau Cyfnod 1.
88. Caiff gwelliannau ar gyfer trafodion Cyfnod 2 eu cyflwyno i'r tîm clerici perthnasol (gellir cysylltu â hwy yn deddfwriaeth@senedd.cymru) o ddiwrnod cyntaf Cyfnod 2 ymlaen. Caiff unrhyw Aelod (gan gynnwys yr Aelod sy'n gyfrifol ac aelodau o Lywodraeth Cymru) gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2, ac nid oes unrhyw gyfyngiad ar nifer y gwelliannau y gellir eu cyflwyno. Mae gwybodaeth am sut i gyflwyno gwelliannau yn y dogfennau canlynol:
- **Canllaw i welliannau i Filiau Cyhoeddus** (PDF, 176KB)
 - **Cyflwyno gwelliannau i Filiau** (PDF, 310KB)
89. Er mwyn i welliant gael ei dderbyn gan y Swyddfa Gyflwyno, rhaid iddo gydymffurfio â **Penderfyniad y Llywydd o ran Ffurf Briodol Gwelliannau i Filiau**, yn ogystal â'r rheolau ar dderbynioldeb a amlinellwyd yn y **Rheolau Sefydlog**. Gall tîm y Bil gydweithio â'r Aelod sy'n gyfrifol a'i Staff Cymorth i lunio gwelliannau.
90. Yn ôl y Rheolau Sefydlog rhaid i welliannau (heblaw gwelliannau hwyr) gael eu cyflwyno o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y cyfarfod y maent i gael eu trafod ynddo. Fodd bynnag, mae'n arferol i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil (ac i Lywodraeth Cymru) gyflwyno eu holl welliannau o leiaf **saith** diwrnod gwaith cyn y cyfarfod y byddant yn cael eu trafod ynddo.

91. Rhaid i fwyafrif o'r Aelodau bleidleisio o blaid gwelliant cynycaiff ei basio. Os bydd pleidlais gyfartal, bydd Cadeirydd yn defnyddio ei bleidlais fwrw i bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

04.3.2. *Y pwyllgor yn trafod y gwelliannau yng Nghyfnod 2*

92. Fel y nodwyd uchod, yn ôl y drefn arferol nid yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn gwasanaethu fel aelod o'r Pwyllgor sy'n trafod ei Fil. Felly, ni fyddant yn pleidleisio ar y gwelliannau yng Nghyfnod 2.

93. Drwy gonfensiwn, bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cael cyfle i siarad am:

– ei welliannau ef ei hun; a

– phob grŵp o welliannau (y confensiwn yw mai'r Aelod sy'n gyfrifol yw'r siaradwr olaf ond un ym mhob grŵp o'r ddadl, ac yn siarad ar ôl y Gweinidog).

94. Gall tîm y Bil gydweithio â'r Aelod sy'n gyfrifol a'i Staff Cymorth i baratoi:

– atebion posibl ar gyfer y gwelliannau sydd wedi'u grwpio; a

– dogfennau sy'n crynhoi pob gwelliant; a'r bleidlais y dymuna'r Aelod ei gwneud mewn perthynas â hwy.

95. Caiff swyddogion (gan gynnwys aelodau o dîm y Bil) fynd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol i drafodion Cyfnod 2. Caiff swyddogion roi nodiadau i'r Aelod sy'n gyfrifol, ond ni chânt siarad yn ystod trafodion Cyfnod 2.

04.3.3. *Diwygio'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2*

96. Oscytnwyd ar unrhyw welliannau yn ystod trafodion Cyfnod 2, bydd fersiwn o'r Bil "fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2" yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Senedd ar ôl i drafodion Cyfnod 2 ddod i ben. Caiff hyn ei wneud gan dîm clericio'r Pwyllgor.

97. Os caiff Bil ei ddiwygio yn ystod trafodion Cyfnod 2, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig (oni bai bod y pwyllgor a gynhaliodd drafodion Cyfnod 2 yn penderfynu nad yw hyn yn angenrheidiol). Gall tîm y Bil gydweithio â'r Aelod a'i Staff Cymorth i lunio Memorandwm Esboniadol diwygiedig.

98. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, rhaid gosod Memorandwm Esboniadol diwygiedig a baratowyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol ger bron y Senedd oleiaf bum niwrnod gwaith cynybydd y Senedd yn cyfarfod ar gyfer trafodion Cyfnod 3 am y tro cyntaf.

04.4. **Cyfnod 3**

99. Mae Cyfnod 3 yn gyfnod diwygio ychwanegol sy'n galluogi pob Aelod o'r Senedd i graffu ar Fil fesul llinell yn ystod y Cyfarfod Llawn.

100. Fel yn achos Cyfnod 2, nid yw'n ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno unrhyw welliannau yn ystod Cyfnod 3. Fodd bynnag, efallai byddant am gyflwyno gwelliannau pellach i'r Bil yng ngoleuni gwelliannau y cytunwyd arnynt neu a waredwyd yn ystod trafodion Cyfnod 2. Gall tîm y Bil gydweithio â'r Aelod sy'n gyfrifol a'i Staff Cymorth i lunio gwelliannau.

101. Mae canllawiau manwl ar drafodion Cyfnod 3, gan gynnwys gwybodaeth am yr amserlen, ac am gyflwyno, grwpio a chynnig gwelliannau, ar gael yn y **Canllaw i'r cyfnodau craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus**.

102. Yn ystod dadl Cyfnod 3 bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cael cyfle i siarad ynghylch:

- ei welliannau ef ei hun; a
- phob grŵp o welliannau (y confensiwn yw mai'r Aelod sy'n gyfrifol yw'r siaradwr olaf ond un ym mhob grŵp o'r ddadl, ac yn siarad ar ôl y Gweinidog).

103. Gall tîm y Bil gydweithio â'r Aelod sy'n gyfrifol a'i Staff Cymorth i baratoi:

- atebion posibl ar gyfer y gwelliannau sydd wedi'u grwpio; a
- dogfennau sy'n crynhoi pob gwelliant a'r bleidlais y dymuna'r Aelod ei gwneud mewn perthynas â hwy.

104. Ni all y tîm y Bil na Staff Cymorth yr Aelod fod yn bresennol yn ystod y ddadl Cyfnod 3. Fodd bynnag, gellir darparu cymorth ar e-bost drwy gydol y ddadl.

105. Pan fydd yr holl welliannau addetholwyd yng Nghyfnod 3 wedi'u gwaredu, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol, neu unrhyw aelod o'r llywodraeth, heb rybudd, gynnig bod y Senedd yn styried rhagor o welliannau mewn trafodion Cyfnod 3 pellach. Mae gwybodaeth am drafodion Cyfnod 3 pellach yn **Canllaw i'r cyfnodau craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus**.

106. Unwaith y bydd Cyfnod 3 ar ben, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gynnig, heb hysbysiad, bod y Senedd yn styried gwelliannau yn y Cyfnod Adrodd. Mae gwybodaeth am drafodion y Cyfnod Adrodd yn y **Canllawiau i'r cyfnodau craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus**.

107. Os caiff Bil ei ddiwygio yn ystod trafodion Cyfnod 3, ac os bydd y Senedd yn cytuno i styried y Bil yn y Cyfnod Adrodd, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y Senedd yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig. Gall tîm y Bil gydweithio â'r Aelod sy'n gyfrifol a'i Staff Cymorth i lunio Memorandwm Esboniadol diwygiedig. Rhaid gosod Memorandwm Esboniadol diwygiedig a baratowyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol gerbron y Senedd o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y bydd y Senedd yn cyfarfod ar gyfer trafodion y Cyfnod Adrodd am y tro cyntaf.

04.5. Cyfnod 4

108. Cyfnod 4 yw'r cyfnod olaf ym mhroses ddeddfwriaethol y Senedd. Ar ôl dadl, caiff pleidlais ei chynnal ynghylch a ddylai testun terfynol y Bil gael ei basio neu beidio. Bydd y Bil yn cael ei basio os bydd mwyafrif o Aelodau'r Senedd yn pleidleisio o blaid y cynnig. Bydd y Bil yn methu os bydd mwyafrif Aelodau o'r Senedd yn pleidleisio yn erbyn y cynnig.

109. Os bydd y pleidleisiau'n gyfartal yng Nghyfnod 4, bydd y Llywydd yn defnyddio'i bleidlais fwrw i bleidleisio yn erbyn pasio'r Bil.

110. Mae gwybodaeth am drafodion Cyfnod 4 yn y **Canllaw i'r cyfnodau craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus**.

111. Pan fydd y Senedd wedi pasio Bil, dechreuir ar gyfnod o bedair wythnos a elwir yn gyfnod 'hysbysu'. Yn ystod y cyfnod hwn, caiff y Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol, o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gyfeirio'r cwestiwn a yw'r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd, i'r Goruchaf Lys i gael penderfyniad. Yn yr un modd, gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud gorchymyn yn gwahardd Clerc y Senedd rhag cyflwyno Bil i gael Cydsyniad Brenhinol os oes ganddo sail resymol dros gredu bod amodau

penodol yngymwys (adran 114 o Ddeddf 2006). Nidoesgan yr Aelod sy'n gyfrifol unrhywrôl o ran cysylltu â'r Cwnsler Cyffredinol, y Twrnai Cyffredinol na'r Ysgrifennydd Gwladol.

112. Yn ystod y cyfnod hysbysu, bydd Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Aelod sy'n gyfrifol, tîm y Bil a staff cymorth Aelodau o'r Senedd, yn paratoi cyfres o Nodiadau Esboniadol i gyd-fynd â'r Ddeddf.
113. Yn dilyn y cyfnod hysbysu, rhaid i'r Clerc gyflwyno Bil i gael Cydsyniad Brenhinol. Pan fydd Bil wedi derbyn y Cydsyniad Brenhinol, daw yn Ddeddf gan Senedd Cymru. Mae'n arferol i'r Aelod sy'n gyfrifol gael ei wahodd i fod yn bresennol yn y seremoni swyddogol ar gyfer rhoi Sêl ar y Ddeddf.

Atodiad 1: Canllawiau fesul cam, i'r broses o lunio Biliau Aelodau

1. Cyflwyno gwybodaeth cyn y balot

Bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno teitl ac amcanion polisi'r Bil arfaethedig, ar ffurf gwybodaeth cyn y balot drwy Swyddfa Gyflwyno'r Senedd.

2. Y balot

Y Llywydd yn cynnal balot. Mae enillydd y balot yn cael cyfle i gyflwyno cynnig yn galw ar y Senedd i gytuno y dylid cyflwyno Bil a fydd yn rhoi effaith i'r wybodaeth cyn y balot. Mae'n rhaid i enillydd y balot lunio Memorandwm Esboniadol ynghyd â'r cynnig, sy'n nodi:

- teitl arfaethedig y Bil;
- amcanion polisi y Bil arfaethedig;
- manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed; ac
- asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil.

3. Dadl i geisio cymeradwyaeth y Senedd i gyflwyno Bil

Bydd yr Aelod yn agor a chau dadl yn y Cyfarfod Llawn ar gynnig ynghylch a ddylai'r Senedd ganiatáu i'r Aelod gyflwyno Bil Aelod. Bydd Aelodau o'r Senedd yn pleidleisio ar y cynnig, sy'n gynnig y gellir ei basio drwy fwyafrif syml.

4. Drafftio'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol

Os bydd y Senedd yn caniatáu i'r Aelod gyflwyno'i Fil, rhoddir 13 mis i'r Aelod ddrafftio Bil a Memorandwm Esboniadol atodol. Bydd yr Aelod fel rheol yn ymgynghori â rhanddeiliaid sydd â diddordeb fel rhan o'r broses hon.

5. Cyflwyno'r Bil yn ffurfiol a gwneud datganiad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn

Bydd y Bil a'r Memorandwm Esboniadol atodol yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol yn Swyddfa Gyflwyno'r Senedd. Caiff yr Aelod gyfle i gyflwyno'r Bil i Aelodau o'r Senedd drwy wneud datganiad arno yn y Cyfarfod Llawn.

6. Y Pwyllgor Busnes yn cyfeirio'r Bil

Bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu a oes angen i bwyllgor ystyried y Bil yn ystod Cyfnod 1 ac, os felly, bydd yn penderfynu at ba bwyllgor y dylid cyfeirio'r Bil ar gyfer y broses graffu.

7. Ystyriaeth y Pwyllgor yng Nghyfnod 1

Bydd y Pwyllgor sy'n gyfrifol yn cymryd tystiolaeth gan rhanddeiliaid sydd â diddordeb, gan gynnwys yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog Cymru perthnasol. Gall pwyllgorau eraill hefyd gymryd tystiolaeth.

8. Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor a'i argymhellion

Bydd y pwyllgor cyfrifol yn cyhoeddi adroddiad a fydd yn cynnwys argymhellion

mewn perthynas ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Caiff pwyllgorau eraill hefyd gyhoeddi adroddiadau.

9. Dadl Cyfnod 1 ar yr egwyddorion cyffredinol a phleidlais arnynt

Bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn agor a chau dadl Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn, ac wedi hynny cynhelir pleidlais ynghylch a ddylid cymeradwyo egwyddorion cyffredinol y Bil neu beidio.

10. Sicrhau penderfyniadariannol

Byddy Senedd, drwy bleidleisio ar gynnig a fydd yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru, naill ai'n cydnabod bod angen ateb y galwad am gyllid a fydd yn deillio o'r Bil drwy ddefnyddio Cronfa Gyfunol Cymru, neu'n gwrthod cydnabod hynny.

11. Drafftio a chyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3

Os cytunir ag egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd Cyfnod 2 yn dechrau a gall yr holl Aelodau gyflwyno gwelliannau i'r Bil (gan gynnwys yr Aelod sy'n gyfrifol ac aelodau o Lywodraeth Cymru).

12. Trafodion pwyllgor yng Nghyfnod 2

Bydd y pwyllgor yn ystyried ac yn gwaredu'r holl welliannau a gaiff eu cyflwyno. Yn unol â chonfensiwn, bydd gan yr Aelod sy'n gyfrifol gyfle i siarad am bob grŵp o welliannau. Dim ond os bydd y Penderfyniad Ariannol wedi'i gytuno y ceir cynnal trafodion Cyfnod 2.

13. Drafftio a chyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3

Gall gwelliannau i'r Bil gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod (gan gynnwys yr Aelod sy'n gyfrifol ac Aelodau o Lywodraeth Cymru).

14. Trafodion y Cyfarfod Llawn yng Nghyfnod 3

Bydd yr Aelodau i gyd yn ystyried ac yn gwaredu'r gwelliannau hynny i'r Bil a gaiff eu dethol gan y Llywydd.

15. Trafodion y Cyfarfod Llawn yng Nghyfnod 4

Pleidlais ynghylch a ddylid pasio neu wrthod y Bil.



Atodiad 2: Templed ar gyfer cyflwyno gwybodaeth cyn y balot

BILIAU GWYBODAETH CYN Y BALOT YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 26.90

Adran 1 – Yr Aelodau sy'n gwneud cynnig:

ENW	ETHOLAETH

Adran 2 – Biliau: gwybodaeth cyn y balot:

Gellir dod o hyd i'r Canllaw i'r broses ddeddfu yn:

<http://www.senedd.cymru/cy/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/Pages/bus-legislation-guidance.aspx>

Rhaid i Aelodau ddarparu:

- I. teitl arfaethedig y Bil;
- II. amcanion polisi arfaethedig y Bil.

Dylai'r wybodaeth hon gael ei chwblhau yn y templed ar dudalen 2 o'r ffurflen.

Adran 3 - Datgan buddiant perthnasol:

Mae gennyf fuddiant
perthnasol:

Rhowch fanylion:

Adran 4 - Llofnodwr:

Llofnod:		Dyddiad:	
----------	--	----------	--

At ddefnydd y Swyddfa Gyflwyno

Amser
derbyn:

Addasiad
sylweddol:
Llythrennau
cyntaf yr enw:

[Teitl y Bil]

Gwybodaeth cyn y balot

[Enw Aelod o'r Senedd]

Amcanion polisi'r Bil

[Amcanion Polisi'r Bil]